



Dros e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru.

Hydref 2016

## Goruchwyllo cyfres arholiadau TGAU mis Tachwedd 2016

Annwyl gydweithiwr

Cyn pob cyfres o arholiadau, rydym yn ysgrifennu at bob ysgol a choleg i egluro ein dull o oruchwyllo'r gwaith o ddyfarnu cymwysterau TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Yn y llythyr hwn, byddaf yn canolbwyntio ar yr arholiadau TGAU y bydd dysgwyr yn eu sefyll ym mis Tachwedd.

### Cyfres mis Tachwedd 2016

Caiff cymwysterau newydd TGAU Mathemateg – Rhifedd a TGAU Mathemateg eu hasesu a'u dyfarnu am y tro cyntaf fis Tachwedd. Fel rydym yn egluro isod, mae'r cymwysterau hyn yn wahanol iawn i'r cymwysterau TGAU Mathemateg blaenorol a byddwn yn cymryd diddordeb arbennig yn y gwaith o'u hasesu a'u dyfarnu.

Fis Tachwedd yma yw'r cyfle olaf ond un i ymgeiswyr ailsefyll cymwysterau TGAU etifeddol mewn Mathemateg, Saesneg Iaith a Chymraeg.

### Cofrestriadau cynnar disgwylidig ar gyfer y ddau gymhwyster TGAU Mathemateg newydd

Mae data cofrestru dros dro a gasglwyd gan CBAC yn rhoi syniad cynnar i ni o batrymau cofrestru ar gyfer y TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg –

Rhifedd newydd. Byddwn yn defnyddio'r data hyn i'n helpu i gynllunio ein dull o oruchwyllo'r gwaith dyfarnu a dehongli'r canlyniadau. Rydym yn disgwyl i dros 50,000 o ymgeiswyr gael eu cofrestru ar gyfer y ddau gymhwyster newydd: tua 29,000 o gofrestriadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Mathemateg – Rhifedd a 23,000 ar gyfer TGAU Mathemateg. Mae hyn yn cyfateb i dros 90% o'r garfan genedlaethol yn sefyll y cymhwyster TGAU Mathemateg – Rhifedd a thua 60% o'r garfan genedlaethol yn sefyll y cymhwyster TGAU Mathemateg. Bydd yn agos at 21,000 o ymgeiswyr, 83% o'r cofrestriadau cyfunol, yn sefyll y ddau gymhwyster. Ar gyfer y ddau gymhwyster, bydd 60% o ymgeiswyr yn sefyll yr haen ganolradd, 23% yn sefyll yr haen uwch, a 16% yn sefyll yr haen sylfaenol.

## **Dyfarnu'r cymwysterau TGAU newydd am y tro cyntaf yn Nhachwedd 2016**

Mae dull sefydledig i gynnal sefydlogrwydd mewn canlyniadau pan gaiff cymwysterau TGAU neu Safon Uwch newydd eu cyflwyno, sef 'canlyniadau cymaradwy'. Prif nod y dull hwn yw sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n dilyn y cymwysterau newydd yn cael mantais neu eu bod nhw dan anfantais o gymharu â'r rhai a ddilynodd y cymhwyster etifeddol. Gwyddom fod y dull hwn yn gweithio'n dda mewn sefyllfaoedd pan gaiff un fanyleb ei disodli gan un arall. Defnyddiwyd y dull hwn yn llwyddiannus yr haf hwn wrth ddyfarnu'r cymwysterau Safon UG newydd.

Yr her wrth oruchwyllo'r gwaith o ddyfarnu'r cymwysterau TGAU newydd sy'n cael eu sefyll ym mis Tachwedd am y tro cyntaf yw bod cymhwyster sengl yn cael ei ddisodli gan ddau gymhwyster gwahanol. Yn y sefyllfa hon, ni allwn ddibygnu ar y dull canlyniadau cymaradwy yn unig. Felly, buom yn cydweithio â CBAC i ddatblygu mesurau ychwanegol i ategu'r dull canlyniadau cymaradwy. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad ystadegol gwahanol ar berfformiad y garfan, a threfniadau i arholwyr gynnal adolygiadau mwy helaeth a dwys o waith ymgeiswyr ar ffiniau graddau allweddol yn ystod y broses ddyfarnu.

Byddwn yn cyhoeddi dogfennau technegol yn fuan, a elwir yn ddogfennau cyfnewid data, a fydd yn manylu ar sut y bydd yr egwyddor canlyniadau cymeradwy yn berthnasol i'r gwaith o ddyfarnu'r cymwysterau newydd hyn.

## **Canlyniadau ar gyfer y cymwysterau TGAU Mathemateg newydd - beth i'w ddisgwyl**

Byddwn yn dwyn safon y cymhwyster TGAU Mathemateg blaenorol ymlaen i'r ddau gymhwyster newydd yn unigol. Mae hyn yn golygu – a chymryd bod popeth arall yn gyfartal – ein bod yn disgwyl yn fras i tua'r un gyfran o raddau gael eu dyfarnu yn y ddau gymhwyster newydd ag a fyddai wedi cael eu dyfarnu ar gyfer y cymhwyster etifeddol. Felly, bydd cyfran gyffredinol yr ymgeiswyr sy'n cyflawni gradd C neu'n uwch mewn TGAU Mathemateg – Rhifedd a TGAU Mathemateg yn is na chanran yr ymgeiswyr a fydd yn ennill gradd C neu'n uwch yn y ddau gymhwyster hyn ar wahân.

Mae'r cymwysterau TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd newydd yn sylweddol wahanol i'r cymwysterau TGAU Mathemateg blaenorol – ac, yn wir, i'w gilydd – oherwydd bod y ddau ohonynt yn asesu cynnwys a sgiliau gwahanol. Mae hyn yn golygu na fydd pob ymgeisydd yn cael yr un radd yn y ddau gymhwyster newydd.

Mae dulliau ystadegol, gan gynnwys canlyniadau cymaradwy, yn helpu i sicrhau y bydd canlyniadau'n parhau'n sefydlog ar lefel y garfan genedlaethol wrth edrych ar y flwyddyn academaidd gyfan. Fodd bynnag, wrth sefyll cymwysterau newydd, bydd ysgolion a cholegau o bosibl yn gweld mwy o amrywioldeb yn eu canlyniadau wrth iddynt ymaddasu'n wahanol i ofynion y cymwysterau newydd.

Mae'r cymwysterau TGAU Mathemateg newydd hyn wedi'u dylunio fel cymwysterau llinellol, sy'n golygu bod y gwaith asesu i gyd yn digwydd ar ddiwedd y cwrs. Felly, bydd yr arholiadau a gaiff eu sefyll ym mis Tachwedd yn asesu dysgwyr ar yr holl gynnwys ar gyfer y cymhwyster TGAU llawn. Bydd dysgwyr sy'n sefyll arholiadau ym mis Tachwedd wedi dechrau ar eu hastudiaethau ym mis Medi 2015, sy'n golygu na fyddant wedi cwblhau dwy

flynedd o astudio eto, sef yr amser arferol rydym yn disgwyl bod ei angen ar ddysgwyr i baratoi ar gyfer yr arholiadau hyn. O ystyried cyfran uchel y garfan sydd wedi cofrestru ar gyfer mis Tachwedd, mae felly'n rhesymol i ddisgwyl na fydd llawer o ddysgwyr yn cael y radd orau bosibl.

## **Rhagweld canlyniadau**

Gwyddom fod rhai sefydliadau masnachol yn marchnata adnoddau asesu sy'n honni eu bod yn helpu i ragweld graddau tebygol dysgwyr a fydd yn sefyll y TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd newydd fis Tachwedd yma. Nid yw Cymwysterau Cymru na CBAC yn cyfrannu o gwbl at ddarparu'r profion hyn, felly ni allwn roi sylwadau ar eu cywirdeb na'u dibynadwyedd. Dylai athrawon sy'n defnyddio'r cynnyrch ddefnyddio eu barn professiynol a'u profiad pan yn dehongli'r canlyniadau.

## **Cyhoeddi canlyniadau**

Mae graddau'r newidiadau rhwng y cymwysterau TGAU Mathemateg hen a newydd, ynghyd â chyfran uchel y cofrestriadau cynnar, yn golygu ein bod ni a CBAC yn wynebu rhai heriau unigryw wrth ddyfarnu'r cymwysterau hyn am y tro cyntaf.

Rydym felly wedi penderfynu gohirio'r broses o gyhoeddi canlyniadau ar gyfer y cymwysterau TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd newydd yn unig, am un wythnos.

Caiff y canlyniadau ar gyfer y ddau gymhwyster hyn yn unig eu cyhoeddi ddydd Iau 19 Ionawr 2017, a chaiff canlyniadau eu rhoi i ysgolion a cholegau ddydd Mercher 18 Ionawr 2017. Bydd hyn yn rhoi amser i ni a CBAC gymryd pob cam posibl i sicrhau nad yw'r broses ddyfarnu yn rhoi mantais neu anfantais annheg i ddysgwyr sy'n sefyll y cymwysterau newydd hyn.

Noder: caiff canlyniadau cymwysterau ar gyfer pob TGAU arall eu cyhoeddi fel y cynllunwyd ddydd Iau 12 Ionawr 2017 a'u rhyddhau i ysgolion a cholegau ddydd Mercher 11 Ionawr 2017.

## TGAU Etifeddol

Ar gyfer pynciau TGAU lle y cafodd manylebau diwygiedig eu cyflwyno, dyma fydd y cyfle olaf ond un i ymgeiswyr ailsefyll yr hen fanylebau ('etifeddol'). Rydym wedi cyhoeddi manylion y trefniadau ar gyfer [ailsefyll](#) pob un o'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch etifeddol ar ein gwefan.

## Rhagor o wybodaeth

Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i chi. Rydym yn rhoi diweddariadau rheolaidd i ysgolion a cholegau ar gymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau eraill rydym yn eu rheoleiddio drwy ein cylchlythyr 'Y *Llechen*'. Gallwch gofrestru i gael hwn o'n [gwefan](#).

Yn gywir

**Philip Blaker**

**Prif Weithredwr**